
## Mynd at yr YAR

Gallwch fynd at yr Ystafelloedd Arolygu Rhithwir ac Ardaloedd y Darparwyr drwy https://vir.cymru


## Mewngofnodi i'r Ystafell Arolygu Rithwir

Yr URL ar gyfer yr Ystafelloedd Arolygu Rhithwir ac Ardaloedd y Darparwyr yw https://vir.cymru. Ar ôl mynd i https://vir.cymru, byddwch yn gweld sgrin fewngofnodi fel yr un sydd i'w gweld yn Ffigur 1 isod. Os ydych chi'n un o gyflogeion Estyn, mae'ch enw defnyddiwr (yn y fformat enwcyntaf.cyfenw@estyn.gov.uk) a'ch cyfrinair yr un fath â'r rhai rydych chi'n eu defnyddio i fewngofnodi i'ch gliniadur. Os ydych yn arolygydd allanol (neu'n gydweithiwr o AGC), eich enw defnyddiwr yw eich rhif adnabod Estyn yn y fformat canlynol **EstynID@vir.cymru**. Mae eich cyfrinair yr un fath â fersiwn flaenorol yr YAR.
Anfonwch negese e-bost at ITSupport@estyn.gov.uk os ydych wedi anghofio'ch cyfrinair neu os byddwch yn cael trafferth mewngofnodi i'r YAR.




*Ffigur 1 Ffenestr mewngofnodi'r YAR*

Os ydych eisoes wedi'ch dilysu, byddwch yn mynd yn syth i'r Ystafelloedd Arolygu Rhithwir heb orfod mewngofnodi eto.
Sylwer: Ar achlysuron prin, efallai y byddwch yn gweld neges wall fel yr un yn Ffigur 2. I ddatrys hyn, adnewyddwch eich porwr drwy bwyso F5 neu'r eicon adnewyddu (sydd â chylch coch o'i gwmpas isod).




*Ffigur 2 Neges wall achlysurol sy'n cael ei dangos wrth fewngofnodi.*

## Dod o hyd i'r arweiniad

Wedi i chi fynd at yr Ystafell Arolygu Rithwir, byddwch yn dod o hyd i'r arweiniad llawn ar gyfer Arolygwyr Tîm ac Arolygwyr Cofnodol, ynghyd â dolen i rai fideos defnyddiol.